**Cofnodion Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf**

**10 Hydref 2025**

0900 – 1400

Lleoliad: Llys Cadwyn

**Yn bresennol**
James Price (Cadeirydd), Peter Strachan, Heather Clash, Alexia Course, Marie Daly, Jan Chaudry, Julian Edwards

**Hefyd yn bresennol**
Sam Hadley, Nick Millington, Stephen Morgan (Cofnodion), Gareth Evans (Arsylwr Llywodraeth Cymru)

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

**1a. Hysbysiad ynghylch Cworwm**
Gan fod cworwm, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan bod y cyfarfod yn agored.

**1b. Datgan Buddiant**
Cadarnhaodd yr aelodau fod eu datganiadau o fuddiannau cyhoeddedig yn dal yn gyfredol ac nad oedd dim buddiannau ychwanegol i'w datgan.

**2. Sylw i ddiogelwch**
Trafododd y Bwrdd y gwelliant mewn glendid ar y trenau a'r ymdrechion parhaus i reoli gwastraff cyffredinol, gyda'r trefniadau ar gyfer caffael cyflenwyr biniau i gael ei adolygu. Trafodwyd rheoli plâu, a mesurau lliniaru fel rhwydi ar bontydd. Trafododd y Bwrdd y cynnydd mewn tipio anghyfreithlon a'r diffyg polisi gwastraff ffurfiol, gan dynnu sylw at oblygiadau dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol ac effaith cael gwared ar finiau o orsafoedd.

**3. Sylw i gwsmeriaid**
Trafododd y Bwrdd gynyddu ymdrechion i ganfod twyll, gyda data newydd yn nodi mai teithwyr sydd heb brynu tocyn yw'r brif broblem, yn enwedig camddefnyddio Talu wrth Fynd. Trafodwyd safoni ymatebion i achosion o beidio â thalu. Trafododd y Bwrdd bryderon ehangach ynghylch twyll a'r ymgyrchoedd marchnata i gyfathrebu'n glir. Trafodwyd rhwystrau gweithredol ar y system Talu wrth Fynd gan gynnwys lleoliad offer dilysu ac arwyddion aneglur. Cyfeiriodd y Bwrdd at broblem gydag arwyddion yn Cogan Street, a bydd NM yn mynd ar drywydd hyn gydag MD i'w setlo [MD/NM i Weithredu]

**4. Cofnodion a Chamau Gweithredu**

Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion 10 Hydref 2025 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

**5. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau**

MD - Diweddariad i gyflwyno sgyrsiau ar gyfarfodydd cyn cyfarfod y Bwrdd

- [redacted]
- Mae dangosfwrdd digwyddiadau bellach wedi'i integreiddio â'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTP), gydag ymrwymiad cadarn i ymchwilio i bob achos o ymosod ar staff a mynd at wraidd yr achosion.
- Mae ODSG bellach wedi uno â Llais y Cwsmer, gan nodi bod yr achosion o ganslo'r gwasanaeth rhwng Penarth a Coryton yn gysylltiedig â nam ar ddyfais cyfrif echelau a'r arwydd cyntaf posibl fod ceblau wedi'u dwyn. Mae problemau'n ymwneud â llystyfiant a'r fflyd wedi effeithio ar Reilffordd Calon Cymru; mae uned ychwanegol yn cael ei defnyddio i wneud y gwasanaeth yn fwy dibynadwy.
- Mae'r achosion o ganslo'r gwasanaeth rhwng Glynebwy a Chasnewydd wedi arwain at adolygu'r rhesymeg canslo ac mae Rheolwyr Perfformiad yn edrych yn fanwl ar y problemau a geir gyda'r gwasanaeth rhwng Maesteg a Glynebwy. MD i adolygu'r dull gweithredu ar gyfer canslo o safbwynt y gwasanaeth rhwng Glynebwy a Chasnewydd **[Gweithredu]**
- Cyflwynwyd model rhannu systemau ar gyfer canslo ac oedi ar y traciau, nododd y Bwrdd y gall gor-grynhoi data guddio gwraidd yr achosion. Mae'r camau sy'n cael eu cymryd yn cynnwys archwiliad dwfn gan NM ac ailgyflwyno dadansoddiadau swyddogaethol yn RDSG.
- Bwriedir adolygu codau adnabod os ceir oedi o dros bum munud ac ymyrryd ar lefel y gorsafoedd. [redacted]
- Bydd yr Asedau Euraidd ar Linellau Craidd y Cymoedd yn cael eu hailosod a bydd y cynlluniau wrth gefn yn cael eu hadolygu a'u cyflwyno i'r Bwrdd Rheilffyrdd, gofynnir am gyngor allanol, a hefyd flaengynllun peirianneg i wneud newidiadau mawr.
- Ail-osod amcanion NR ar gyfer yr hydref gan symud at gyfarfodydd hydref 'gwir amser' gyda chyfarfodydd nad ydynt yn hanfodol yn cael eu clirio i symleiddio'r ffocws.
- Dywedwyd wrth y Bwrdd fod perfformiad CAF o Gaer yn dda iawn, ond fod cwymp dail wedi effeithio ar Gyfnod 7. Mae'r Adolygiadau Dysgu ar Unwaith (ILR) yn dangos tueddiadau calonogol yn y perfformiad.

- Gwelwyd perfformiad cryf ar draws y rhwydwaith gyda Llinellau Craidd y Cymoedd yn cyflawni 94% o'r Amser y mae Teithwyr yn ei Golli (PTL) a Chymru a'r Gororau yn cyflawni 84% PTL.
- LB i ddatblygu gwefan benodol ar gyfer cwsmeriaid i dynnu sylw cwsmeriaid at broblemau gweithredol ar y gwasanaethau dosbarth cyntaf **[Gweithredu]**

**6. Trenau Class 398**

*Ymunodd Dan Tipper a Colin Lea â'r cyfarfod*

Trafododd y Bwrdd gyflymu llwybr critigol Cyflwyno i Wasanaeth drenau Class 398 i fis Mawrth 2026 drwy symleiddio'r broses o'u cymeradwyo ac ynysu diagram Treherbert i leihau anghenion hyfforddi, gyda gweithio ar ddiwrnodau gorffwys o bosibl yn galluogi iddynt fod yn barod erbyn canol mis Chwefror. Cydnabuwyd yr oedi gyda meddalwedd a'r risgiau wrth brofi, yn enwedig wrth brofi nifer o unedau, profion brêcs, a sicrwydd cwrs peilot a drefnwyd ar gyfer 18 Tachwedd. Trafodwyd defnyddio trenau Class 756 i Fae Caerdydd fel ffordd o gyrraedd y targedau perfformiad, yn amodol ar gymeradwyaeth gan y penaethiaid proffesiynol ac archwiliadau o adnoddau. Codwyd y mater o gydymffurfio â mynediad i doiledau a'r goblygiadau ar amserlenni, ac ystyriwyd gwasanaethau gwennol a diagramau gwasgarog. [redacted] Roedd y cyfeiriad strategol yn gwyro tuag at gyflymu'r broses o gyflwyno, cael gwared ar drenau Class 150, a rhaeadru trenau Class 231, a oedd yn golygu cael cymorth gan y Tîm Arwain Gweithredol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Nodwyd goblygiadau ariannol yr opsiynau a argymhellwyd, a chynghorwyd y byddai'r gost am gyflymu yn [redacted]. Cafodd camau gweithredu eu neilltuo i CL a MD i archwilio dichonoldeb gwasanaeth gwennol a chyflwyno 756 i'r Bae **[MD/CL i weithredu]**

**7. Diweddariad Masnachol**

*Ymunodd Chris Williams â'r cyfarfod*

Trafododd y Bwrdd fod refeniw Cyfnod [redacted]. Mae angen rhoi sylw brys i broblemau gweithredol fel diffyg trenau Mk IV a dibynadwyedd gwasanaethau, yn enwedig ar lwybr Caerdydd-Manceinion. Trafodwyd marchnata drwy brofiadau ac ymgysylltu'n uniongyrchol â chwsmeriaid i wella'u hymwybyddiaeth a'r nifer sy'n defnyddio cynnyrch Talu wrth Fynd. Gofynnodd y Bwrdd i LB ddiffinio amcanion marchnata clir, gyda galwad ehangach am berchnogaeth, ymateb tactegol, a gwell dealltwriaeth o gwsmeriaid ar draws y rhwydwaith **[Gweithredu]**

**8. Prisiau wedi'u Rheoleiddio Mawrth 2026**

[redacted]

**9. Adolygiad Ariannol**

*Ymunodd Stephanie Reymond â'r cyfarfod*

Trafododd y Bwrdd y perfformiad ariannol a'r newidiadau yn y system gyllid a'r drefn lywodraethu, gan nodi diffyg o £2.4m yn y cymhorthdal sydd bellach yn cael ei adlewyrchu yn y rhagolygon. Fe wnaeth y dull diwygiedig o gyflwyno ffigurau amlygu her aruthrol i'r rheolwyr o £1.9m i wrthbwyso risgiau ac achosion na chawsant eu cynnwys yn y gyllideb wreiddiol, gyda £2.2m o refeniw teithwyr yn dal i fod mewn llaw. Eglurwyd y rhagdybiaethau ar y gwariant marchnata, a disgwylir rhagor o fanteision o'r adolygiadau o swyddi gwag. Trafodwyd llithriant y gwariant cyfalaf, gan nodi'r optimistiaeth i ôl-lenwi drwy brosiectau newydd. Cadarnhaodd y gwaith ymgysylltu allanol nad oedd dim gwarantau ar eitemau refeniw allweddol, a bod y paratoadau'n mynd rhagddynt ar gyfer sesiynau herio, gyda phwyslais ar reoli costau lefel isel cronnol ac olrhain y camau i addasu prosiectau penodol ar wahân.

**10. Elfennau Masnachol CAF**

Trafododd y Bwrdd strategaeth cynnal a chadw ar gyfer unedau newydd, [redacted]

**11. Cerbydau Rheilffyrdd (Fflyd y Dyfodol)**

*Ymunodd Rob Hale a Chris Pearce*

Trafododd y Bwrdd y cynllun fflyd strategol i ddarparu ar gyfer ehangu'r gwasanaethau yng Ngogledd Cymru a Bryste, ac roedd gofyn am 10 uned Class 153 ar unwaith, unedau a fyddai'n cael eu disodli yn y pen draw gan unedau Class 197 CAF. [redacted]

[redacted] Bydd y gwaith o adnewyddu fflyd Mk IV, [redacted], yn cael ei ohirio drwy ymestyn oes asedau ac archwilio locomotifau newydd. Cadarnhawyd bod trenau Class 231 yn cael eu haddasu'n rhai hybrid, gan gyd-fynd â'r strategaeth cerbydau rheilffyrdd a'r dadansoddiad cost a budd a amlinellwyd yn flaenorol yn yr achos busnes yn 2021. Mae cynllun rhaeadru yn hanfodol i egluro'r trawsnewidiadau, a chynigiwyd deunyddiau cyfathrebu gan gynnwys creu fideo o'r fflyd, argraffu taflen am y cerbydau rheilffyrdd, a sleidiau wedi'u diweddaru (depos, unedau Mk IVs). Bydd angen i'r bwrdd sbarduno'r archebion opsiynau ar yr adeg iawn, gyda senarios clir i helpu gyda'r gwaith o wneud penderfyniadau.

**12. Trenau Class 197e**

Nododd y Bwrdd mai Bwrdd TrC fyddai'n gyfrifol am gyflwyno unedau Class 197e i wasanaeth. Cadarnhaodd MD y byddent yn siarad am y papur a ddarparwyd.

**13. Marchnata**

Adolygodd y Bwrdd yr ymdrechion presennol i godi ymwybyddiaeth o frand, gan nodi sgoriau ystyriaeth gref gyda 28% yn cofio hysbysebion yn arolwg omnibws Cymru; mae hyn yn agos at feincnodau brandiau mawr. Mae her chwe wythnos ar y gweill er mwyn gallu targedu'n well gan ddefnyddio technegau digidol, prisiau ac amseru yn ystod oriau brig. Mae 17 o ymgyrchoedd yn rhedeg drwy gydol mis Mawrth, [redacted]. Mae Talu wrth Fynd (PAYG) yn dal i fod yn ymgyrch "wastad arnodd", gan nodi bod cynnyrch newydd i deuluoedd yn cael ei lansio ym mis Tachwedd. Trafodwyd cyfleoedd Busnes i Fusnes, gan gynnwys porth label gwyn ar gyfer archebion trên corfforaethol. Nodwyd disgowntiau'r systemau llaw ar fysiau a chyfyngiadau'r system archebu. Bydd cardiau crafu yn cael eu dosbarthu i gydweithwyr dros y Nadolig, ac mae mynediad at brisiau 'gwir amser' yn gwneud ymgyrchoedd yn fwy hyblyg. [redacted]

**14. Unrhyw Fater Arall**

Gofynnodd y Bwrdd i EE ddod â chynlluniau lleihau salwch i Gyfarfod nesaf Bwrdd Rheilffyrdd TrC **[EE i weithredu]**

**Gan nad oedd unrhyw Fater Arall, dywedodd y Cadeirydd fod y cyfarfod wedi dod i ben.**